



CRONFA BUDDSODDI MEWN BUSNESAU

CYFARWYDDYD

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y gwasanaeth yma: www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau diogelu data'r Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.



CRONFA BUDDSODDI MEWN BUSNESAU ~CYFARWYDDYD~

Pwrpas y Gronfa

Nod y Gronfa Buddsoddi mewn Busnesau yw hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy ledled Rhondda Cynon Taf trwy fuddsoddi mewn mentrau/busnesau sy'n cyfrannu at greu economi leol ffyniannus a chadarn. Mae'n darparu cymorth ariannol i fusnesau, gan gynnwys;

- Busnesau newydd (llai na 12 mis oed)
- Busnesau sy'n bodoli eisoes
- Mentrau/busnesau preifat a chymdeithasol

Gall y Gronfa helpu busnesau i wneud y canlynol:

- Cychwyn, ehangu, tyfu ac amrywiaethu
- Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg
- Magu hyder a'r gallu i nodi llwybrau newydd at gynaliadwyedd
- Lleihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, ac annog effeithlonrwydd ynni

Lefelau'r Grant

- **Busnesau sy'n gweithredu o'r cartref** – Isafswm o £500 hyd at uchafswm o £1,500
- **Adeiladau Masnachol** –
 - Canol Prif Drefi, canolfannau masnachol allweddol ac Ystadau Diwydiannol (sy'n hybu'r economi leol a lleoedd ar gyfer cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth) – Isafswm o £1,500 hyd at uchafswm o £10,000
 - Lleoliadau eraill – Lleiafswm o £1,500 hyd at uchafswm o £5,000.
- **Cyfradd y Grant** – Uchafswm o gyfraniad o 50% tuag at Gostau Prosiect cymwys (ac eithrio TAW).

Pwy sy'n gymwys i gyflwyno cais?

Rydych chi'n cael cyflwyno cais:

- os ydych chi'n gweithredu yn ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Rhaid i chi fod dros 18 mlwydd oed
- os yw'ch busnes yn fach (9 o weithwyr neu lai na hynny) neu'n fach/canolig ei faint (10 – 250 o weithwyr)
- os yw'ch trosiant blynyddol yn dod i €50 miliwn (tua £40 miliwn) neu'n llai na hynny, neu os yw cyfanswm eich mantolen flynyddol yn €43 miliwn (tua £34 miliwn) neu'n llai na hynny.
- os yw/bydd eich busnes yn fenter amser llawn (sy'n cynnwys 1 swydd Gyfwerth ag Amser Llawn.) Swydd amser llawn yw un o 30 awr neu fwy yr wythnos; swydd ran-amser yw un o 15 awr yr wythnos o leiaf; mae dwy swydd ran-amser yn cyfrif fel un swydd gyfwerth ag amser llawn.
- os byddwch chi'n masnachu o fewn 3 mis i unrhyw gynnydd grant, os yw'n fusnes newydd.
- os ydych chi'n talu Treth y Cyngor neu Ardrethi Annomestig (gan gynnwys busnesau wedi'u heithrio) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- os oes/bydd gyda chi brydles/trwydded fasnachol gydag o leiaf 3 blynedd yn weddill, hynny yw, os yw'ch eiddo yn un masnachol
- os oes/bydd gyda chi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
- os yw'r caniatâd cywir a pherthnasol gyda chi (deiliad morgais / landlord / caniatâd cynllunio, caniatâd hysbysebu ac ati) i weithredu busnes o'ch eiddo neu'ch cartref.
I gael rhagor o wybodaeth am ganiatâd, cliciwch ar y dolenni isod.
[Cynllunio – Cyflwyno cais Rheoli Adeiladu Adeiladau Rhestredig](#) neu gysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio ☎ 01443 494719 neu
 GwasanaethauCynllunio@rctcbc.gov.uk
- Efallai y bydd yn ofynnol i fusnesau gyda Pherchnogion/Cyfarwyddwyr cysylltiedig yn yr un cyfeiriad ddarparu rhagor o wybodaeth i bennu cymhwysedd.

Dydych chi DDIM yn cael cyflwyno cais:

- os unig landlord eiddo masnachol ydych chi
- os oes busnes Air BNB gyda chi
- os ydych chi wedi'ch contractio i un cyflogwr fel unigolyn hunangyflogedig yn hytrach na gweithiwr uniongyrchol.

Am beth gaf i wneud cais?

- Prynu cyfarpar cyfalaf
- Gwaith adeiladu
- Costau marchnata unwaith ac am byth
- Datblygu gwefan
- Caledwedd a meddalwedd arbenigol
- Cyfleuster e-fasnach
- Gwella cyflymder y rhyngrwyd yn sylweddol
- Cyflogi ymgynghorwyr arbenigol i gynorthwyo ynglŷn â:
 - ❖ Datblygu a/neu weithredu mentrau strategol;
 - ❖ Ymchwilio i batrymau mynediad hyfyw a chynaliadwy i'r farchnad;
 - ❖ Datblygu cynnyrch, proses, technoleg neu wasanaeth newydd
- Gwaith sydd â'r potensial i wneud y canlynol;
 - ❖ Gwella cynaliadwyedd yr amgylchedd
 - ❖ Lleihau costau deunyddiau ac adnoddau
 - ❖ Lleihau gwastraff (dŵr, ynni, deunyddiau)

Am beth chaf i ddim cyflwyno cais?

- Costau cynnal/refeniw arferol neu barhaus (gan gynnwys rhenti, ardrethi, yswiriant, cyflogau, taliadau parhaus i rentu eitemau, hyfforddiant).
- Costau cynnal a chadw / atgyweirio arferol neu barhaus, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â gwella a/neu amnewid hen eitemau sydd wedi dyddio, gan gynnwys TGCh.
- Costau gosod gwasanaethau
- Costau ymgynghori allanol arferol neu barhaus, er enghraifft, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, cyfreithiol neu ariannol.
- Costau sy'n ymwneud â gweithdrefnau statudol / digwyddiadau annisgwyl.
- Costau sy'n ymwneud â phrynu deunyddiau adeiladu yn unig – rhaid i'r costau gynnwys cyflenwi a gosod.
- Prynu cerbydau.
- Prynu eiddo, ffioedd a threthi cysylltiedig.
- Offer safon uchel / eitemau drud, diangen oni bai fod cysylltiad uniongyrchol â'r gweithgaredd busnes.
- Costau ôl-weithredol gan gynnwys blaendaliadau (mae modd eu had-dalu neu beidio)
- Eitemau wedi'u hurbwrcasu / trefniadau prydles neu gyda thaliadau arian parod.
- Costau lle mai chi yw'r ymgeisydd a'r cyflenwr.
- Eitemau stoc.
- Eitemau a ariannwyd yn flaenorol gan grant – boed hynny ar yr un safle neu mewn cyfeiriad gweithredu gwahanol, er enghraifft, dwy siop o dan yr un berchnogaeth sy'n gwneud cais am offer TG â dau gais ar wahân.
- Costau amrywiol ar gyfer eitemau o dan £50 ac eitemau y byddai disgwyl i fusnes dalu amdany'n nhw o'i lif arian ei hun fel treuliau hanfodol, er enghraifft, offer swyddfa annibynnol ar gyfer dechreuwyr newydd.

Nodwch nad yw'r rhestr yma yn un gynhwysfawr.

Pryd caf i wneud cais?

Mae'r Gronfa'n gweithredu ar sail rhaglen dreigl. Does dim cylchoedd ymgeisio penodol ac rydych chi'n cael cyflwyno eich cais cyflawn neu fynegi diddordeb ar unrhyw adeg.

Does dim sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus. Byddwn ni'n asesu ceisiadau ar sail y cyntaf i'r felin, yn ddibynnol ar argaeledd a'r cyllid sy'n weddill.

Ein nod yw cynorthwyo cymaint o fusnesau â phosibl. Oherwydd y galw mawr am y Gronfa yma a chyllideb gyfyngedig, rydyn ni'n cadw'r hawl i beidio â gwahodd ceisiadau sydd wedi'u hailgyflwyno.

Sut rydw i'n cyflwyno cais?

Cam 1 – Mynegi Diddordeb

- Bydd angen i chi lenwi ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb a'i hanfon aton ni.
- Yna byddwn ni'n cysylltu â chi i drafod eich cynnig.
- Sylwch nad yw cyflwyno ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb ddim yn warant y cewch eich gwahodd i gyflwyno cais, neu y bydd unrhyw gais dilynol yn llwyddiannus.

Cam 2 – Cais Cyflawn

- Os yw'ch Mynegiant o Ddiddordeb yn gymwys, byddwn ni'n eich gwahodd i gyflwyno cais.
- Cyflwynwch eich cais a'r holl wybodaeth ategol ar yr un pryd.

Sut bydd fy nghais yn cael ei brosesu?

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu cychwynnol i sicrhau eich bod chi wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen yn llawn ac wedi cyflwyno'r **HOLL** wybodaeth ategol gywir. Fydd dim modd dilysu ceisiadau sydd ddim yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Os yw eich cais yn ddilys,

- byddwn ni'n cadarnhau hyn gyda chi trwy e-bost ac yna bydd eich cais yn cael ei asesu'n ffurfiol.
- Dylech chi ganiatáu i gyfnod o hyd at 8 wythnos, o'r cadarnhad dilysu, i'r broses asesu ffurfiol gael ei gwblhau ac i benderfyniad gael ei wneud ynghylch eich cais.

Os nad yw eich cais yn ddilys,

- byddwn ni'n ei ddychwelyd atoch chi gan egluro pam nad oes modd ei ddilysu ar

hyn o bryd.

- Mae croeso i chi ailgyflwyno'ch cais ar ôl mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd raid ymdrin â nhw.

Sut bydda i'n cael gwybod canlyniad fy nghais?

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch chi'n derbyn llythyr sy'n cadarnhau manylion y grant a'i delerau ac amodau.

- Os ydych chi'n dymuno derbyn y grant, bydd angen i chi lofnodi a dychwelyd y telerau ac amodau, ac yna bydd modd i chi ddechrau ar eich prosiect.
- Rhaid i chi **BEIDIO Â** chychwyn eich prosiect / mynd i **UNRHYW** gostau nes i chi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig bod eich prosiect wedi'i gymeradwyo.

Sut bydd y grant yn cael ei dalu?

Fel rheol dim ond ar ddiwedd eich prosiect y bydd y taliad yn cael ei wneud, a hynny ar ôl cyflwyno'r canlynol:

- anfonebau, cyfriflenni banc i dystiolaethu bod taliad wedi'i wneud i'r cyflenwr/contractwr;
- tystiolaeth ffotograffig ac, os yw'n berthnasol,
- unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag amodau arbennig a fydd yn cael eu cynnwys yn eich llythyr cynnig grant.

Bydd taliadau grant:

- yn cael eu gwneud ar gyfer y gost leiaf – naill ai'r dyfynbris gwreiddiol neu bris yr anfoneb derfynol.
- yn cael eu gwneud i'r cyfrif banc busnes a gafodd ei nodi yn eich ffurflen gais.

Fydd taliadau grant **DDIM**

- yn cael eu gwneud ymlaen llaw.
- yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyflenwyr/contractwyr.
- yn cael eu gwneud am unrhyw gostau rydych chi wedi mynd iddyn nhw cyn dyddiad y cynnig grant (hyd yn oed ar ffurf adneuon ad-daladwy).

Sut bydd fy mhrosiect yn cael ei fonitro?

Yn rhan o amodau'r grant, bydd gofyn i chi ddarparu adroddiad ysgrifenedig byr ar sut mae'r buddsoddiad grant wedi helpu'ch busnes i gyflawni'r canlyniadau a nodoch chi ar eich ffurflen gais.

Fydd dim modd i chi gyflwyno cais arall i'r Gronfa nes bod holl ganlyniadau eich prosiect wedi'u cyflawni.

Cymorth a Chefnogaeth


Rydyn ni am roi cymorth i gynifer o'n busnesau â phosibl.

Os ydych chi'n ansicr a yw'ch prosiect yn gymwys neu os oes angen unrhyw help a chyngor arnoch chi ynglŷn â llenwi'r ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb neu'r ffurflen gais, yna cysylltwch â ni a byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i helpu.

Fyddwn ni ddim yn gyfrifol am gyngor sydd wedi'i ddarparu gan drydydd parti a allai fod yn anghywir.

Manylion cyswllt:

@ adfywio@rhondda-cynon-taf.gov.uk

 01443 281124